# ELLIS, ELLIS ab (fl. 1685-1726), clerigwr a bardd

**Enw:** Ellis Ab Ellis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr a bardd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** Gildas Tibbott

Cyfeiliornodd amryw o'r geiriaduron bywgraffyddol wrth ei amseru ganrif yn gynharach. Ni wyddys dim am ei deulu na'i gysylltiadau cynnar, er y ceir fel pennawd i gyfres o englynion o'i waith yn N.L.W. MS. 255 ' Englynion o wneuthuriad Ellis ab Ellis a anwyd ymhlwyf Trillo yn sir Feirionydd.' Daliodd guradiaeth barhaol eglwys Rhos, Sir Gaernarfon, am yn agos i 32 mlynedd; ceir ei gofnod cyntaf yng nghofrestr y plwyf ar 14 Mai 1693, a'r olaf ar 28 Mawrth 1725. Yr oedd Llandudno hefyd o dan ei ofal. Bu farw ym mhlwyf Meliden, Sir y Fflint. Profwyd ei ewyllys 22 Medi 1726.

Ysgrifennodd farddoniaeth mewn mesurau caeth a rhydd. Cyhoeddwyd ' Cywydd i'r Arian ' yn *Dyfyrwch ir Cymru neu Ddewisol Ganiadau* (Dulyn, d.d.) ac yn *Y Gwladgarwr*, iv, 18; ' Hanes y Byd ' yn *Almanac* Thomas Jones, 1685; a ' Carol Plygain,' 1710, ' Hanes Llundain,' a ' Gofal Cybydd am ei Ferch ' yn *Blodeu-Gerdd Cymry*, 1759. Ceir rhai o'r darnau hyn, ac eraill o'i waith, yn y llawysgrifau canlynol: N.L.W. 9, 255, 432, 434, 436, 653, 2621, 3487, 10744, 13063; Cwrtmawr 5; Cardiff 47, 64; Swansea 3 (155); B.M. Add. 14875, 14987, 14992 (a'u cyhoeddi yn *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*, 1931), 15005, 15010. Cyfieithodd lyfryn o ryddiaith, *Britain's Timely Warning*, i'r Gymraeg o dan y teitl *Cofiadur Prydlon Lloegr* (Amwythig, Stafford Prys, 1761).

## Awdur

**Gildas Tibbott**, (1900 - 1979)

## Ffynonellau


Cofysgrifau'r Eglwys yng Nghymru

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), 542

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852), 141

*Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol* (1875), i, 507

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), i, 252

*Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru* (1870), 298

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803), 14

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732997


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu